Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Cyfarfod:** y Cyd-bwyllgor Archwilio
**Lleoliad:** Pencadlys yr Heddlu
**Dyddiad:** 29 Mawrth 2017
**Amser:** 10:00 – 13:00

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | **Mr Gawain Evans (GE)(Cadeirydd)**<br>**Mr Alasdair Kenwright (AMSK)**<br>**Mr Malcolm MacDonald(MM)**<br>**Mr Andre Morgan (AM)** |
| **Hefyd yn bresennol:** | Mr Mark Collins, Y Prif Gwnstabl (PG)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff (PS)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Cyllid (PSC)<br>Mr Jason Garcia, Rheolwr Archwilio, Swyddfa Archwilio Cymru (JG)<br>Ms Vicky Davies, Cyfarwyddwr Archwilio, TIAA (VD)<br>Ms Rachel Jones, Cyfreithiol (RJ)(eitem 18 ar yr agenda yn unig)<br>Mrs Sharon Richards, Rheolwr llywodraethu a Dirprwy Swyddog Monitro (SR) (eitem 16 ar yr agenda yn unig)<br>Mrs Anne Williams, Swyddog Cymorth Busnes |
| **Ymddiheuriadau:** | Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau<br>Mr John Herniman, Cyfarwyddwr Ymgysylltu, SAC |
| **Datganiadau o fuddiant:** | Dim |

| CRYNODEB O WEITHGARWCH CYFARFOD 6 RHAGFYR 2016 | | |
|---|---|---|
| Rhif Cam Gweithredu. | Crynodeb o'r Camau Gweithredu | Cynnydd |
| **A79 2016/17** | **Y PSC i wirio cworwm y Pwyllgor.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A81 2016/17** | **Cynnwys trafodaeth gyffredinol am y Cynllun Heddlu a Throseddu ar agenda diwrnod hyfforddi'r Cyd-bwyllgor Archwilio ar 16 Ionawr.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A81 2016/17** | **Rhannu'r Cynllun drafft gyda'r aelodau pan fo'n briodol.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A83 2016/17** | **Y PSC i wirio Cylch Gorchwyl y Pwyllgor mewn perthynas â chyfrifoldeb y Pwyllgor er mwyn cymeradwyo neu gadarnhau'r newidiadau o fewn y Cynllun Blynyddol.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A86 2016/17** | **Y PSC i wirio Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio mewn perthynas ag AHEM a diweddaru SB am unrhyw newidiadau wrth symud ymlaen.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A86 2016/17** | **Gwahodd Vince Tether i gyfarfodydd achlysurol y Grŵp Llywodraethu Corfforol.** | **Wedi'i gwblhau** |

**Mae trefn Cofnodion y Cyd-bwyllgor Archwilio wedi cael ei newid i gyfateb i ddiwyg pob Cofnodion a gynhyrchir gan SCHTh.**

**Croeso**

Newidiodd Y Cadeirydd drefn yr agenda. Cytunodd yr Aelodau i wneud hyn.

**A90 2016/17 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 6 Rhagfyr 2016 a Materion a godwyd**

Cadarnhawyd bod cworwm o dri Aelod i fod yn bresennol ar gyfer y Cyd-bwyllgor Archwilio.

Cyfrifoldeb y Cyd-bwyllgor Archwilio oedd derbyn a chymeradwyo newidiadau o fewn y Cynllun Blynyddol ar gyfer Archwiliad Mewnol. Roedd y mater hwn i fod cael ei drafod dan eitem nes ymlaen yn yr agenda.

Roedd y Cylch Gorchwyl wedi cael ei ddiweddaru ac roedd gweithgarwch AHEM i fod cael ei drafod mewn eitem nes ymlaen yn yr agenda. Roedd Vince Tether wedi cytuno i fynychu cyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio oedd i'w gynnal yn y dyfodol.

**Penderfyniad: Derbyniwyd cofnodion 6 Rhagfyr 2016 yn gofnod cywir.**

**A91 2016/17 Ystyried Cynllun Archwilio 2017 Drafft gan Swyddfa Archwilio Cymru**

Diolchodd JG i'r Pwyllgor am gytuno i newid trefn yr agenda.

Amlinellodd Cynllun Archwilio 2017 y modd y byddai Swyddfa Archwilio Cymru'n gweithredu i benderfynu a oedd datganiadau ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a'r Prif Gwnstabl yn gywir, a sicrhau bod y trefniadau cywir yn eu lle i sicrhau cynildeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

Cyfeiriodd JG at y risgiau oedd yn ymwneud ag archwilio'r datganiadau ariannol ac amlygodd y prif newid a'r risg posib wrth symud tuag at gau cyfrifon diwedd blwyddyn yn gynt. Wrth weithio tuag at derfynau amser ariannol diwygiedig, roedd y tîm Cyllid wedi ymroi i gynhyrchu datganiadau ariannol drafft ar gyfer 2016-17 erbyn 16 Mehefin 2017, gan fwriadu cwblhau'r archwiliad erbyn diwedd Gorffennaf. Newidiwyd dyddiad cyfarfod mis Gorffennaf y Cyd-bwyllgor Archwilio ar gyfer hyn.

Amlygodd JG ychydig o ostyngiad yn y ffi archwilio a amcangyfrifir ar gyfer 2017 am gyflwyno gwaith Swyddfa Archwilio Cymru.

Roedd amserlen y gwaith yn debyg i amserlen y blynyddoedd cynt ar wahân i'r ffaith bod adrodd ar archwilio datganiadau ariannol a barn am y datganiadau ariannol bellach yn digwydd ym mis Gorffennaf yn lle mis Medi.

Mewn perthynas â'r newidiadau i'r amserlenni, gofynnod CHTh am sut y byddai'r dyddiadau cau diwygiedig yn effeithio ar yr Heddlu'n fewnol. Er y byddai'r terfynau amser

yn heriol, roedd y CC yn hyderus y byddai o fewn cyrraedd, a chyfeiriodd at y sefyllfa wrth gefn.

Cyfeiriodd JG at rwystrau a ddigwyddodd tuag at ddiwedd yr archwiliad wrth gyflwyno newidiadau i'r cyfrifon. Er mwyn bodloni gofynion dyddiadau cau cynharach, gofynnodd JG i'r Pwyllgor ystyried a fyddai'r sefydliad yn dymuno cyflwyno newidiadau i gamgymeriadau a ddarganfuwyd yn y cyfrifon a oedd yn llai na lefel y gwerth materol, gan nad oedd gan y sefydliad ymrwymiad i wneud newidiadau o'r fath.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod yr awgrym hwn yn ddefnyddiol.

Gadawodd JG y cyfarfod.

**Penderfyniad: Yr Aelodau i ystyried yr opsiwn i newid unrhyw gamgymeriadau sydd o dan y gwerth materol.**

**A92 2016/17 Y Cynllun Heddlu a Throseddu a'r Cynllun Trosglwyddo ategol**

Ym mis Rhagfyr 2016 cafodd yr Aelodau gyflwyniad cynnar ac ym mis Ionawr 2017 cawsant y copi drafft cyntaf o'r Cynllun Heddlu a Throseddu; roedd y ddau yn fuddiol iawn. Roedd CHTh yn ddiolchgar am yr adborth hwn a fyddai'n gymorth wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Cylchlythyrwyd dwy set o daflenni a chafwyd crynodeb o gynnwys pob un. Lluniwyd blaenoriaethau drwy ymgynghori'n eang â'r cyhoedd a deiliaid diddordeb lleol, a manylodd SR yn gryno am agweddau'r pedair Blaenoriaeth.

Roedd y fersiwn gyhoeddedig o'r cynllun yn cynnwys mwy o fanylion o ran yr amcanion a osodwyd o dan bob blaenoriaeth.

Mewn ymateb i Gynllun yr Heddlu a Throseddau roedd y PG wedi datblygu Cynllun Trosglwyddo i ddangos cyrhaeddiad y sefydliad yn erbyn y Blaenoriaethau. Bydd CHTh yn monitro'r cynnydd yn erbyn y meysydd i ddangos y gwahaniaeth a wneir. Pwysleisiwyd y modd yr oedd y Cod Ymarfer yn sail i'r Cynllun.

Roedd y Cynllun Heddlu a Throseddu a'r Cynllun Trosglwyddo yn cael eu lansio mewn cyfres o ddigwyddiadau lansio a gynlluniwyd ar draws ardal yr Heddlu. Mae'r ddwy ddogfen ar gael i'r cyhoedd ar wefannau'r Heddlu a'r CHTh.

Cyfeiriodd SR at fanylion y trefniadau oedd ar waith i fewnblannu'r 'Cynllun ar Dudalen' ar draws y sefydliad i godi ymwybyddiaeth am y Blaenoriaethau a'r ffordd ymlaen.

Cafwyd trafodaeth am weithio'n weithredol a phwysleisiodd CHTh fod cyflwyno gwasanaeth a gweithgareddau yn sail i'r Cynllun Heddlu a Throseddu a'u bod eisoes ar waith. Cyfeiriodd at sut roedd buddsoddi mewn camerâu a wisgir ar y corff yn gwella prosesau ac yn cyrraedd safonau.

Cyfeiriodd y PG at gyflwyniad fframwaith perfformiad newydd a oedd â chyswllt wyneb yn wyneb â staff ledled y sefydliad a fyddai'n gymorth wrth gyflwyno'r Cynllun.

Wrth ymateb i gwestiwn am ai ar gyfer defnydd allanol y bwriadwyd y 'Cynllun ar Dudalen,' cyfeiriodd CHTh at y Bwrdd Comisiynu Sefydlu, a chadarnhaodd bod gweithio gyda phartneriaid yn hanfodol i'r cyflwyniad, yn ogystal â bod yn ffocws gweithredol.

Cafwyd trafodaeth am sut y gellid rhannu'r 'Cynllun ar Dudalen' orau'n fewnol ac yn allanol, gan ei fod yn grynodeb defnyddiol i'r cyhoedd.

Diolchodd CHTh i'r Aelodau am eu sylwadau.

Ychwanegwyd fersiwn ddwyieithog, fersiwn sy'n hawdd ei darllen a fersiwn Iaith Arwyddion Prydain hefyd i'r wefan, a gofynnodd MM i ieithoedd eraill gael eu hystyried yn ogystal â fersiwn glywedol.

Penderfynodd y PG a'r CHTh ddal cyfarfodydd cyhoeddus rheolaidd i ymgysylltu â chymunedau i bennu unrhyw wahaniaethau cyhoeddus a nodir.

**Penderfyniad: Y dylid ystyried fersiwn gyhoeddus, fersiwn glywedol a fersiynau mewn ieithoedd eraill.**

**A93 2016/17 AHEM Peel: Adroddiad Effeithiolrwydd yr Heddlu 2016.**

Roedd yr Aelodau'n werthfawrogol o gael golwg ar adroddiad llawn AHEM a gweld sefyllfa Dyfed-Powys mewn perthynas â rhai agweddau.

Gofynnodd y Cadeirydd am drafodaeth ar rôl y Pwyllgor o ran adroddiadau AHEM, a holodd am gynnydd yr Heddlu wrth ymateb i'r adroddiad.

Trafododd yr Aelodau y m yr oedd eu sylwadau ar adroddiadau AHEM yn cydweddu â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, gan fod gan y Pwyllgor y gallu i gryfhau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drwy gyflwyno sylwadau.

Wrth dderbyn rhai o argymhellion yn yr adroddiad, rhoddodd y PG eglurhad a sicrwydd i'r Aelodau am y gwaith oedd ar y gweill ar feysydd perfformiad oedd angen eu gwella.

Wrth ymateb i gwestiwn gan AMSK ar p'un a oedd gan yr Heddlu ddigon o adnoddau i weithredu'r argymhellion yr adroddiad, cyfeiriodd y PG at benodi trosglwyddeion arbenigol a'r cynlluniau ar gyfer hyfforddiant mewnol yr Heddlu. Dywedodd CHTh fod angen buddsoddiad ychwanegol ac arbedion effeithlonrwydd ar rai o'r meysydd a amlygwyd a bod buddsoddiad yn debygol o fod yn heriol.

Yn ogystal â nodi a gofyn cwestiynau, holodd y Cadeirydd a fyddai modd i'r Pwyllgor gynnig craffu pellach mewn perthynas ag adolygiadau AHEM.

Cynigiodd y PG y dylai un Aelod arwain ar faterion AHEM a bod yr Aelod hwnnw'n cael ei wahodd i gyfarfodydd mewnol i fonitro ymateb yr Heddlu i'r argymhellion, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor llawn.

Roedd yr Aelodau o blaid yr awgrym hwn, a chytunon i drafod y mater ymhellach ar ddiwedd y cyfarfod wrth drafod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor a Llywodraethu'r Pwyllgor.

**Penderfyniad: Un Aelod i arwain ar faterion AHEM a mynychu cyfarfodydd mewnol.**

**Penderfyniad: Ystyried cynnig AHEM i adrodd ar y cyd ar gynnydd AHEM ar argymhellion wrth drafod y Cylch Gorchwyl.**

**A94 2016/17 Y Cynllun Archwilio Mewnol Terfynol ar gyfer 2017/18**

Hwn oedd y Cynllun cymeradwya gyflwynwyd yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr. Er mwyn sicrhau cyflawnrwydd daethpwyd â'r Cynllun yn ôl i'r Pwyllgor gydag un newid i ddangos nad oedd Heddlu Dyfed-Powys yn rhan o adolygiad cydweithredol yr Uned Ymchwiliadau Gwyddonol ar y Cyd.

Cafwyd trafodaeth gyffredinol ynghylch yr adolygiadau archwilio mewnol cydweithredol a allai ddarparu sicrwydd am y strwythurau llywodraethu a chydweithio sydd ar waith.

Roedd hyfforddiant y Cyd-bwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar y cyd â Heddluoedd eraill yn ddiweddar yn cydnabod bod TIAA yn cynnig y cyfle i groesgyfeirio materion archwilio mewnol cymharol â Heddluoedd eraill, gan ei fod yn Archwilydd cyffredin. Croesawodd MM y posibilrwydd o gyflwyno adroddiad i heddluoedd eraill Cymru i drafod yr arfer gorau o ran gwaith cymharol.

Yn dilyn materion a godwyd yn gynharach ar weithgarwch AHEM, awgrymodd y PSC yr hoffai'r Aelodau ddefnyddio'r rhain fel sail o bosib ar gyfer edrych ar y rhaglen ar gyfer yr archwiliad mewnol.

Dywedodd VD bod yr heddluoedd eraill yn adolygu cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ac efallai byddai Dyfed-Powys yn dymuno ystyried hynny.

Cytunodd VD i godi adolygiadau cyffredinoledd mewn cyfarfodydd eraill Heddluoedd Cymru.

Wrth ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd VD y byddai'r Aelodau yn derbyn Holiaduron Boddhad yn dilyn yr Adroddiad Blynyddol.

**Cam Gweithredu: TIAA i adrodd ar waith cymharol gyda Heddluoedd eraill Cymru i benderfynu ar arfer gorau.**

**A95 2016/17 Adroddiad Sicrwydd Rheolaethau Mewnol Cryno 2016/17**

Rhoddodd yr adroddiad cryno ddiweddariad i'r Aelodau ar hynt y gwaith ers 21 Mawrth 2017. Darparwyd copïau o'r adroddiadau terfynol i'r Cyd-bwyllgor Archwilio a bu'r Aelodau yn trafod eu gwerthusiadau'n unigol.

Wrth ymateb i sylw am y datblygiadau newydd o ran Llywodraethu, Risg, Rheoli ac Atal Twyll, rhoddodd y CC wybodaeth i'r Aelodau am y newidiadau i gontractio (Rheolau IR35)

sy'n effeithio ar y Sector Cyhoeddus. Croesawodd yr Aelodau cynnig VD i rannu nodiadau briffio ar Borth Cleientiaid Ar-lein TIAA gyda'r Aelodau.

Oherwydd yr agenda llawn a’r cyfyngiadau ar amser, cytunodd yr Aelodau i drafod dim ond adolygiadau sicrwydd cyfyngedig y tro hwn.

**Cam Gweithredu: VD i rannu Porth Cleientiaid TIAA gyda’r Aelodau.**

**A96 2016/17 a) Adolygiad yr archwilwyr mewnol ar Drefniadau Credydwr**

Ystyriodd yr adolygiad y trefniadau ar gyfer awdurdodi a thalu costau’r sefydliad a'r drefn ar gyfer rheoli sieciau’r sefydliad a'r taliadau awtomataidd. Dyfarnodd yr adolygiad sicrwydd cyfyngedig, gydag un argymhelliad Blaenoriaeth 1, tri argymhelliad Blaenoriaeth 2 ac un argymhelliad Blaenoriaeth 3. Amlygodd VD yr argymhelliad Blaenoriaeth 1 mewn perthynas â thaliadau dyblyg a thaliadau i gyflenwyr anghywir. Roedd yr Uned Cymorth Busnes ers hynny wedi cynnal adolygiad o'r holl daliadau sy'n ymddangos i fod yn ddyblygiadau, ac roedd proses ar waith i gysylltu â phob un o'r cyflenwyr i drafod ad-daliad. Defnyddiwyd taenlen o’r taliadau hyn i gyd i fonitro derbyn yr arian hwn, oedd â dyddiad gweithredu targed ar gyfer cael ad-daliad llawn ar 31 Mawrth 2017. Yn ogystal â hyn, cynhelir adolygiad chwarterol o'r holl daliadau gan Gydgysylltydd yr Uned Cymorth Busnes, er mwyn nodi unrhyw daliadau dyblyg yn y dyfodol. Cyfeiriodd VD at broses ddadansoddi soffistigedig TIAA ar gyfer edrych am daliadau dyblyg sy’n cael eu rhannu gyda’r Uned Cymorth Busnes i gynnal archwiliadau chwarterol.

Mynegodd y CC ei siom gyda’r sicrwydd cyfyngedig. Tynnodd sylw at wendidau’r system mewn perthynas â thaliadau dyblyg, a rhoddodd sicrwydd i’r Aelodau bod mesurau atodol wedi cael eu rhoi ar waith ar sail chwarterol i wirio systemau. Roedd prosesau i wella talu’n brydlon hefyd yn cael sylw.

Cyfeiriodd MM at ddulliau i'w hystyried yn y cyfrifon diwedd blwyddyn mewn perthynas ag arian nad oedd yn bosib ei adennill.

Gofynnodd Y Cadeirydd am ddiweddariad mewn perthynas â thaliadau 30 diwrnod Credydwyr yr Uned Cymorth Busnes yn y cyfarfod nesaf, a chytunodd y CC i gylchredeg adroddiad o’r fath.

**Cam Gweithredu: Darparu diweddariad am daliadau Credydwyr yn y cyfarfod nesaf.**

Gadawodd CHTh a’r PG y cyfarfod.

**b) Adolygiad yr Archwilwyr am drefniadau Asedau Sefydlog**

Ystyriodd yr adolygiad nodi asedau a gofnodwyd yn y gofrestr asedau, adnabod, lleoli a chofnodi asedau, rhestrau a gwaredu asedau.

Dyfarnodd yr adolygiad sicrwydd rhesymol gydag un argymhelliad Blaenoriaeth 1 un, gan amlygu nad oedd y brocer yswiriant tir ac adeiladau yn ymwybodol o fodolaeth un mast radio a ddefnyddiwyd gan yr Heddlu. Roedd gweithredu’r argymhelliad wedi'i gwblhau erbyn hyn.

Amlygodd AC adroddiadau adolygiad boddhaol eraill ac mae’r adolygiadau hynny wedi'u rhestru isod at ddibenion cyflawnrwydd.

**c) Adolygiad yr Archwilwyr Mewnol o Drefniadau Cyfriflyfrau Cyffredinol**

Ystyriodd yr adolygiad y trefniadau ar gyfer darparu llwybr archwilio effeithiol ar gyfer data a gofnodir ar y cyfriflyfr cyffredinol a phriodoldeb yr adroddiadau a gynhyrchir. Dyfarnodd yr adolygiad sicrwydd sylweddol ac nid oedd unrhyw faterion i'w trafod.

**ch) Adolygiad yr Archwilwyr Mewnol o Reoli Trysorlys**

Ystyriodd yr adolygiad y trefniadau ar gyfer rheoli trefniadau benthyca a buddsoddi, cydymffurfio â pholisi cyffredinol y sefydliad, trefniadau bancio, cysoniadau ac adrodd i'r Pwyllgor. Dyfarnodd yr adolygiad sicrwydd sylweddol ac nid oedd unrhyw faterion i'w trafod.

**d) Adolygiad yr Archwilwyr Mewnol o Gynllunio Parhad Busnes**

Ystyriodd yr adolygiad y trefniadau ar gyfer cynllunio Parhad Busnes gan gynnwys manylion cynllun strategaeth/polisi a gweithdrefnau, cyfrifoldeb sefydliadol, manylion cynlluniau ar gyfer senarios amrywiol a chynnal profion. Dyfarnodd yr adolygiad sicrwydd rhesymol, ac roedd yr Aelodau yn fodlon bellach bod Parhad Busnes wedi’i ymgorffori'n llawn.

**dd) Adolygiad Dilynol Diwedd blwyddyn yr Archwilwyr Mewnol**

Sefydlodd yr adolygiad dilynol y camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr perthynas ag argymhellion Blaenoriaeth 1 a 2 a ddeilliodd o adolygiadau archwilio mewnol. Edrychodd y Cadeirydd ar yr amserlenni a’r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno yn erbyn y dyddiad targed a nodwyd yn yr adroddiad.

**A97 2016/17 Polisïau Cyfrifyddu Drafft ar gyfer Datganiadau Blynyddol 2016/17**

Cynhwysir y Polisïau Cyfrifyddu ym mhob Datganiad Cyfrif a’r rhain yw’r egwyddorion penodol, y sylfeini, y confensiynau, y rheolau a’r arferion a ddefnyddir wrth baratoi a chyflwyno’r datganiadau ariannol. Cyflwynir Datganiadau o Gyfrifon drafft 2016/17 i’r Aelodau ar ddiwedd mis Mehefin ac mae’r Polisïau Cyfrifyddu drafft wedi'u paratoi ymlaen llaw ar gais yr Aelodau er mwyn rhoi’r cyfle i adolygu’r elfen hon o'r Datganiadau o Gyfrifon a’i hystyried yn gynt.

Cyfeiriodd y PSC at newidiadau a wnaed i'r Polisïau Cyfrifyddu drafft ar gyfer 2016-17 yn unol â newidiadau i'r Cod Ymarfer. Tynnwyd sylw at y gwelliannau o fewn Crynodeb Gweithredol yr adroddiad.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau priodol mewn perthynas â manylion am Eiddo, Peiriannau ac Offer a dilynodd drafodaeth mewn perthynas ag asedau, ac asedau sy'n cael eu dal ar gyfer gwerthu a chytunodd y PSC i godi gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

**Cam Gweithredu: Bod y PSC yn trafod ac yn cadarnhau'r dull mwyaf priodol o werthuso gwahanol ddosbarthiadau o asedau yn y cyfrifon gyda Swyddfa Archwilio Cymru.**

**Penderfyniad: Nodi'r adroddiad.**

**A98 2016/17 Datganiadau Llywodraethu Blynyddol y Prif Swyddog Cyllid (CHTh) a'r Cyfarwyddwr Cyllid (PG) ar gyfer 2016/17**

Cyflwynodd y CC y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a baratowyd gan y Prif Gwnstabl. Mae'r ddogfen statudol yn rhoi crynodeb lefel uchel o'r trefniadau Llywodraethu sydd ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17 ac yn adrodd ar ganlyniadau'r adolygiadau o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol a llywodraethu a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Mae hefyd yn cynnwys manylion o'r risgiau a'r bylchau a nodwyd fel rhan o'r broses a'r camau gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer gwella'r llywodraethu.

Tynnodd y CC sylw at y pwyntiau perthnasol yn yr adroddiad a chroesawodd sylwadau ar yr adroddiad drafft. Cadarnhaodd y CC y byddai'r ddogfen hon yn cael ei hychwanegu fel drafft i'r Datganiad o Gyfrifon drafft ym mis Mehefin, yn amodol ar welliannau.

Cytunodd VD i roi'r geiriad drafft priodol ar farn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol i'r Heddlu ymlaen llaw, er mwyn bodloni terfynau amser.

Gadawodd VD y cyfarfod.

Cyflwynodd MM sylwadau oedd yn briodol i ddatganiadau'r CC a'r PSC ac amlygodd feysydd ar gyfer cryfhau yn ogystal â meysydd o fewn yr adroddiadau oedd angen cysondeb. Cytunodd MM i rannu ei sylwadau i gyd gyda'r staff. Nododd y Cadeirydd y byddai maint y cynnwys yn bwynt i'w ystyried yn y dyfodol.

Sylwodd AM fod yr adroddiad yn gryno ac yn gynhwysfawr a diolchodd y CC i'r Aelodau am eu sylwadau defnyddiol.

Cytunodd MM i drafod Parhad Busnes o fewn Datganiad y PSC gyda'r PSC y tu allan i'r cyfarfod.

Gofynnodd y PSC am farn ynghylch diwyg y cynllun gweithredu cytunedig yn y Datganiad a gofynnodd i'r Aelodau i sylwi ar y newid llofnodwyr oedd yn angenrheidiol i fodloni'r gofynion newydd.

Diolchodd y PSC i'r Aelodau am yr holl sylwadau a fyddai'n cael eu hystyried. Bydd y gwelliannau yn cael eu cynnwys, a chaiff yr adroddiad ei ail-gyhoeddi yn electronig ar gyfer cael rhagor o sylwadau a gwelliannau ac er mwyn cwrdd â'r dyddiad cau cyn y cyfarfod nesaf.

Cyn i AMSK adael y cyfarfod, gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau gylchredeg unrhyw sylwadau ar Adroddiad Blynyddol drafft y Cyd-bwyllgor Archwilio cyn y cyfarfod nesaf.

**Cam Gweithredu: VD i roi geiriad drafft o'r farn archwilio i'r Heddlu ar gyfer paratoi Datganiad o Gyfrifon drafft.**

**Cam Gweithredu: Yn dilyn y gwelliannau, dylid ail-gyhoeddi'r adroddiad ar y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016-17 er mwyn cael sylwadau pellach a gwelliannau.**

**Cam Gweithredu: Oherwydd cyfyngiad ar amser, mewn perthynas ag eitem 5 ar yr agenda, gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau gylchredeg unrhyw sylwadau mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol drafft y Cyd-bwyllgor Archwilio cyn y cyfarfod nesaf.**

**Cam Gweithredu: Mewn perthynas ag Eitem 4 ar yr agenda sef Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio, gofynnwyd i'r Aelodau gylchredeg unrhyw sylwadau cyn y cyfarfod nesaf.**

**Cam Gweithredu: Yr Aelodau i gyfarfod cyn y cyfarfod nesaf i drafod a chytuno ar eitemau sy'n weddill mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol a Chylch Gorchwyl Y Cyd-bwyllgor Archwilio.**

Wrth ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y PS y byddai'r Cyd-bwyllgor Archwilio'n cynnwys hyd at bum aelod.

Gadawodd AMSK y cyfarfod.

**A99 2016/17 Y Strategaeth Rheoli Trysorlys**

Mae'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2017/18 yn nodi'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith gan y CHTh ar gyfer bodloni gofynion statudol. Mae Cod y Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg yn gofyn bod CHTh yn cymeradwyo Strategaeth Rheoli Trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, ac mae'r Canllawiau ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol yn gofyn bod CHTh yn cymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

Amlygodd y PSC un achos o dorri Dangosydd Cod Darbodus mewn perthynas â dyled a'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf a gofnodwyd yn flaenorol. Roedd trafodaethau wedi'u cynnal gyda Chynghorwyr Rheoli Trysorlys a rhoddodd y PSC eglurhad a rhesymeg i'r Aelodau. Roedd y sefydliad i fod edrych ar ffyrdd i leihau'r angen i fenthyca'n allanol yn 2018/19 a 2019/2020.

Gofynnodd y PSC am adborth ar y strategaeth a gylchredwyd.

Holodd y Cadeirydd am y ffigurau benthyg a dyled ar gyfer y blynyddoedd i ddod o fewn yr adroddiad Strategaeth. Cyfeiriodd y PSC at ansicrwydd ynghylch yr adolygiad Fformiwla Ariannu a'r angen am hyblygrwydd o fewn y Blaengynllun ac am drafodaethau cynnar ynghylch dyraniad i'r Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfyniad: Nododd yr Aelodau yr adroddiad.**

**Penderfyniad: Cytunodd y PSC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch sefyllfa'r Dangosydd ar adeg briodol.**

**A100 2016/17 Cofrestrau Risg Corfforaethol yr Heddlu a SCHTh**

Oherwydd cyfyngiad ar amser, gofynnodd y Cadeirydd i'r eitem hon gael ei chario ymlaen i'r cyfarfod nesaf.

**Penderfyniad: Cytunodd yr Aelodau i drafod Cofrestrau Risg yr Heddlu a SCHTh yn y cyfarfod nesaf.**

**A101 2016/17 Y Polisi Cronfeydd Wrth Gefn**

Daeth y PSC ag un gwelliant at sylw'r Aelodau. Nid oedd materion i'w trafod.

**A102 2016/17 Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2017/18 i 2020/21**

Roedd MM wedi codi'r mater o incwm gan dderbyniadau cyfalaf o fewn y rhaglen Gyfalaf o'r blaen.

Amlygodd AC ei bryderon am faint y benthyca o fewn y Strategaeth Gyfalaf. Adleisiodd y PSC bryderon yr Aelodau a chytunodd i ddod â'r mater yn ôl i gyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio ym mis Medi pan fyddai canlyniad adolygiad y Fformiwla Ariannu a chyllidebau'r Swyddfa Gartref yn hysbys.

**Penderfyniad: Trafod y Strategaeth Gyfalaf yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio ym mis Medi.**

**A103 2016/17 Torri diogelwch data**

Rhoddodd RJ ddiweddariad am naw o achosion honedig o dorri diogelwch data yr adroddwyd amdanynt wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ers 29 Tachwedd 2016.

Atebodd RJ cwestiynau priodol mewn perthynas ag achosion honedig o doriadau.

Nododd y Cadeirydd bod naw toriad yn uchel i sefydliad bach.

Rhoddodd RJ grynodeb byr o doriadau diogelwch data oedd wedi digwydd yn y gorffennol a chanlyniadau'r toriadau hynny mewn perthynas â dirwyon.

**Penderfyniad: Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ymhen chwe mis am unrhyw weithredu newydd neu weithredu dilynianol mewn perthynas â'r naw achos o dorri diogelwch data.**

**Penderfyniad: Cytunwyd eisoes i adrodd am Doriadau Diogelwch Data fel eitem sefydlog mewn cyfarfodydd chwarterol y Cyd-bwyllgor Archwilio ond cytunodd yr Aelodau y byddai cael eitem reolaidd ar yr agenda bob chwe mis yn ddigon o hyn ymlaen.**

Cyfeiriodd RJ at newidiadau mewn Diogelu Data a ddaeth i rym ym mis Mai 2019 ar y rhwymedigaethau a'r gofynion ar ddiogelu Data ar gyfer sefydliadau.

Dywedodd y PS fod y tîm cyfreithiol yn gweithio drwy nifer o argymhellion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Cyfeiriodd Adroddiad Blynyddol drafft y Cyd-bwyllgor Archwilio at flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol ac anogodd y PG yr Aelodau i ystyried sut gallai'r Pwyllgor gyflawni eu cyfrifoldebau orau, yn unol â chynnig y PG bod un aelod o AHEM yn mynychu'r cyfarfodydd. Yn yr un modd, byddai'r cynnig i fynychu Bwrdd Gwybodaeth yr Heddlu fel rhan o'r rôl graffu honno yn cael ei ystyried.

**Penderfyniad: Trafod y cynnig bod aelod i fynychu Bwrdd Gwybodaeth yr Heddlu yn ystod trafodaeth ar y Cylch Gorchwyl.**

**A104 2016/17 Adborth o Ddiwrnod Hyfforddi Cyd- Bwyllgor Archwilio Cymru Gyfan**

Cadarnhaodd MM fod y diwrnod hyfforddi'n werth chweil.

Cytunodd y PS i gylchredeg y camau gweithredu a godwyd o ganlyniad i'r diwrnod hyfforddi cyn y cyfarfod nesaf.

**Cam Gweithredu: Y PS i gylchredeg y camau gweithredu a godwyd o ganlyniad i'r diwrnod hyfforddi i'r Aelodau.**

**A105 2016/17 Cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforol 1 Mawrth 2017**

Oherwydd dryswch ynghylch y dyddiadau, mynychodd MM gyfarfod y Grŵp ar ran y Cadeirydd.

**Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor Gofnodion cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforol a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2017.**

**Ar ddiwedd y cyfarfod cytunwyd:**

**Penderfyniad: Blaengyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio i gychwyn am 8.30yb**

**(Y Cadeirydd)**

**Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio i gyfarfod am 9.30yb**

**Cyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio i gychwyn am 10yb**

| PENDERFYNIADAU A GODWYD O GYFARFOD 29 Mawrth 2017 | | |
|---|---|---|
| Rhif y Penderfyniad | Crynodeb o'r Penderfyniad | I'w symud ymlaen gan |
| **A90 2016/17** | **Derbyniwyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2016 yn gofnod cywir.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A91 2016/17** | **Yr Aelodau i ystyried yr opsiwn i newid unrhyw gamgymeriadau sydd o dan y gwerth materol.** | **Yr Aelodau** |
| **A92 2016/17** | **Y dylid ystyried fersiwn gyhoeddus, fersiwn glywedol a fersiynau mewn ieithoedd eraill.** | **SR** |
| **A93 2016/17** | **Un Aelod i arwain ar faterion AHEM a mynychu cyfarfodydd mewnol.** | **Yr Aelodau**<br><br>**(Cytunodd MM)** |
| **A93 2016/17** | **Ystyried cynnig AHEM i adrodd ar y cyd am gynnydd AHEM ar argymhellion wrth drafod y Cylch Gorchwyl.** | **Yr Aelodau** |
| **A97 2016/17** | **Nodi'r adroddiad ar y Polisïau Cyfrifyddu Drafft ar gyfer Datganiadau Blynyddol 2016/17** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A99 2016/17** | **Nododd yr Aelodau'r adroddiad am y Strategaeth Reoli'r Trysorlys.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A99 2016/17** | **Cytunodd y PSC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch sefyllfa'r Dangosydd ar adeg briodol.** | **PSC** |
| **A100 2016/17** | **Cytunodd yr Aelodau i drafod Cofrestrau Risg yr Heddlu a SCHTh yn y cyfarfod nesaf.** | **Yr Aelodau** |
| **A102 2016/17** | **Trafod y Strategaeth Gyfalaf yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio** | **Yr Aelodau** |

| | | |
|---|---|---|
| | **ym mis Medi.** | |
| **A103 2016/17** | **Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ymhen chwe mis am unrhyw weithredu newydd neu weithredu dilynol mewn perthynas â'r naw achos o dorri diogelwch data.** | **RJ/Y Tîm Cyfreithiol** |
| **A103 2016/17** | **Cytunwyd eisoes i adrodd am Doriadau Diogelwch Data fel eitem sefydlog mewn cyfarfodydd chwarterol y Cyd-bwyllgor Archwilio ond cytunodd yr Aelodau y byddai cael eitem reolaidd ar yr agenda bob chwe mis yn ddigon o hyn ymlaen.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A103 2016/17** | **Trafod y cynnig bod aelod i fynychu Bwrdd Gwybodaeth yr Heddlu yn ystod trafodaeth ar y Cylch Gorchwyl.** | **Yr Aelodau** |
| **A105 2016/17** | **Nododd y Pwyllgor Gofnodion cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforol a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2017.** | **Yr Aelodau** |
| | **Blaengyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio i gychwyn am 8.30yb**<br><br>**(Y Cadeirydd)**<br><br>**Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio i gyfarfod am 9.30yb**<br><br>**Cyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio i gychwyn am 10yb** | **Yr Aelodau** |

| CRYNODEB O GAMAU GWEITHREDU CYFARFOD 29 Mawrth 2017 | | |
|---|---|---|
| Rhif y Cam Gweithredu | Cam Gweithredu Crynodol | I'w symud ymlaen gan |
| **A94 2016/17** | **TIAA i adrodd ar waith cymharol gyda Heddluoedd eraill Cymru i benderfynu ar yr arfer gorau.** | **TIAA** |
| **A95 2016/17** | **VD i rannu Porth Cleientiaid TIAA gyda'r Aelodau.** | **TIAA** |
| **A96 2016/17** | **Darparu diweddariad am daliadau Credydwyr yn y cyfarfod nesaf.** | **CC** |
| **A97 2016/17** | **Bod y PSC yn trafod a chadarnhau'r dull mwyaf priodol o werthuso gwahanol ddosbarthiadau o asedau yn y cyfrifon gyda Swyddfa Archwilio Cymru.** | **PSC** |
| **A98 2016/17** | **VD i roi geiriad drafft o'r farn archwilio i'r Heddlu ar gyfer paratoi Datganiad o Gyfrifon drafft.** | **TIAA** |
| **A98 2016/17** | **Yn dilyn y gwelliannau, dylid ail-gyhoeddi'r adroddiad ar y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016-17 er mwyn cael sylwadau pellach a gwelliannau.** | **PSC** |
| **A98 2016/17** | **Oherwydd cyfyngiad ar amser, mewn perthynas ag eitem 5 ar yr agenda, gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau gylchredeg unrhyw sylwadau mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol drafft y Cyd-bwyllgor Archwilio cyn y cyfarfod nesaf.** | **Yr Aelodau** |
| **A98 2016/17** | **Mewn perthynas ag Eitem 4 ar yr agenda sef Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio, gofynnwyd i'r Aelodau gylchredeg unrhyw sylwadau cyn y cyfarfod nesaf.** | **Yr Aelodau** |
| **A98 2016/17** | **Yr Aelodau i gyfarfod cyn y cyfarfod nesaf i** | **Yr Aelodau** |

| | | |
|---|---|---|
| | **drafod a chytuno ar eitemau sy'n weddill mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol a Chylch Gorchwyl Y Cyd-bwyllgor Archwilio.** | |
| **A104 2016/17** | **Y PS i gylchredeg y camau gweithredu a godwyd o ganlyniad i'r diwrnod hyfforddi i'r Aelodau.** | **PS** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 1yh.**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 25 Gorffennaf 2017**